

EDRYCH AR GELFYDDYD

Mae edrych ar a meddwl yn ofalus am waith eraill yn eich helpu i'w ddeall ac yna archwilio'r hyn yr ydych yn ei weld trwy eich celfyddyd eich hunan.

Nid yw ymateb o 'Dwi'n hoffi hwn' neu 'Dwi ddim yn hoffi hwn' heb eglurhad neu gyfiawnhad yn ddadansoddiad, barn bersonol ydyw. Mae disgrifiad yn rhan bwysig o'r astudiad, ond nid yw'n ddigon ar ei ben ei hun.

Bydd gan y rhan fwyaf o gelfwaith sy'n cael ei arddangos mewn orielau ac amgueddfeydd wybodaeth wrth ei ochr neu ar ddechrau'r arddangosfa i roi rhywfaint o wybodaeth sylfaenol i chi am yr artist a'r gwaith. Wrth i chi ddod at gelfwaith, mae'n ddefnyddiol ystyried pryd, pam a lle y crëwyd y gwaith a sut y gallai hyn fod wedi effeithio ar y celfwaith.

- Pa 'naws' arbennig sydd i'r celfwaith a beth sy'n rhoi 'teimlad' arbennig iddo?
- A yw teitl y darn yn gwneud gwahaniaeth i'r ffordd yr ydych yn edrych ar neu'n deall y gwaith?

Pwnc

A yw'r celfwaith yn perthyn i 'genre' (h.y. portread; tirlun; bywyd llonydd; ffantasi; hanesyddol ayyb)?

A oes yna unrhyw leoedd, golygfeydd neu wrthrychau adnabyddadwy? Sut mae'r rhain yn cael eu cyflwyno (e.e. yn realistig; wedi eu symleiddio ayyb)?

A yw pobl yn cael eu dangos yn y celfwaith? Pwy ydyn nhw? Beth allwn ni ei ddweud amdany'n nhw?

A yw'r celfwaith yn dweud stori?

A oes gwrthrychau eraill yn y celfwaith sydd yna i bwrpas penodol? A oes yna ystyr arall neu symbolaeth i'r gwrthrychau hyn?

EDRYCH AR GELFYDDYD

Defnydd o gyfryngau a deunyddiau

Beth mae'r artist wedi ei ddefnyddio i wneud y celfwaith? A yw'r deunyddiau wedi eu gwneud yn amlwg? Pam y dewiswyd y cyfryngau hyn?

Fformat a gosodiad

Beth yw maint, siâp a gosodiad y celfwaith yn gyfan gwbl (h.y. fertigol, llorweddol, portread, tirlun neu sgwâr)? A yw'r fformat hwn wedi ei ddewis am resymau ymarferol?

Marciau a llinellau

Pa fathau o farciau a wnaed yn y gwaith, e.e. llinellau syth, pigog, trwchus, tenau, golau, tywyll, ysgafn, trwm? Pam y defnyddiwyd y rhain?

Siâp a ffurf

Ellwch chi adnabod siapiau a ffurfiau penodol?

Tôn, golau a lliw

A oes yna ddarnau o'r gwaith sydd yn dywyll, golau neu a thonau canol? Beth yw effaith hyn?

Pa gynlluniau lliw a ddefnyddiwyd yn y celfwaith? Pa liwiau syn gryfach na'r gweddill a pha fath o awyrgylch mae hyn yn ei greu?

Gwead, arwyneb a gofod

A oes yna weadau diddorol yn y celfwaith

Sut mae'r celfwaith yn ffitio i'r gofod go iawn o'i gwmpas?

Oes disgwyl i'r gwyliwr symud trwy'r celfwaith?

Cofiwch fod y cwestiynau hyn i'ch helpu i ddechrau meddwl am y gelfyddyd yr ydych yn dod ar ei thraws. Gall fod nifer o wahanol atebion i'r cwestiynau hyn, a gall pobl yn aml anghytuno ynglŷn â bwriadau'r artist. Mae'n well gan lawer o artistiaid beidio ag egluro eu gwaith gan ffafrio rhoi rhyddid i bawb ymateb i'w gwaith fel unigolyn yn hytrach na themlo bod eu hymateb neu eu casgliadau yn 'anghywir' mewn rhyw ffordd oherwydd eu bod yn wahanol i fwriad yr artist.

EDRYCH AR GELFYDDYD



Arwydd y 'Four Alls' – Olew ar bren – DJ Williams



Dyfrlliw heb ei fframio – Emma Fynes Clinton